OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 72

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

**Diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (gwybodaeth am deithiwr), hepgorer paragraffau 2(g), 3 a 5.

(3) Ym mharagraff 3(1)(e) o Atodlen 1A (profion cyn cyrraedd Cymru), ar ôl "ailddechrau gweithio" mewnosoder—

",

(f) aelod o griw awyren sy'n cael ei gludo ar hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w haseinio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren, er budd diogelwch yr awyren, pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith."